# Canllawiau Statudol Drafft:

# Perfformiad a llywodraethiant prif gynghorau

## Cynnwys


Crynodeb ..... 4
- Y ddyletswydd i adolygu perfformiad yn barhaus ..... 4
- Y ddyletswydd i ymgynghori ar berfformiad ..... 4
- Y ddyletswydd i adrodd ar berfformiad ..... 5
- Y ddyletswydd i drefnu asesiad o berfformiad gan banel ..... 5
- Y ddyletswydd i ymateb i adroddiad ar asesiad o berfformiad gan banel ..... 5

Pennod 1 – Cyd-destun polisi a diben y gyfundrefn perfformiad a nodir yn y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) ..... 7
- Cyd-destun polisi ..... 7
- Diben y darpariaethau ar gyfer perfformiad a llywodraethiant ..... 9
- Yr amgylchedd rheoleiddiol ehangach ..... 10
- Cymorth i wella ..... 13

Pennod 2 – Y ddyletswydd i adolygu perfformiad yn barhaus ac adrodd arno drwy hunanasesiad ..... 14
- Cyflwyniad ..... 14
- Dyletswydd prif gyngor i adolygu ei berfformiad yn barhaus ..... 14
- Y ddyletswydd i adrodd ar berfformiad drwy hunanasesu ..... 14
- Diben hunanasesu ..... 15
- Y dull hunanasesu ..... 15
- Rhoi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar waith ..... 18
- Adroddiad hunanasesu ..... 20
- Cymryd camau mewn perthynas â hunanasesu ..... 21
- Pwy y dylid ei gynnwys yn yr hunanasesiad ..... 21
- Cynnwys pwyllgor llywodraethu ac archwilio'r cyngor ..... 22
- Cyhoeddi'r adroddiad hunanasesu ..... 22

Pennod 3 – Y ddyletswydd i drefnu asesiad o berfformiad gan banel ac ymateb iddo ..... 23
- Cyflwyniad ..... 23
- Dyletswydd prif gyngor i drefnu asesiad o berfformiad gan banel ..... 23
- Diben asesiad o berfformiad gan banel ..... 24
- Y dull o gynnal asesiad o berfformiad gan banel ..... 25
- Amseru ..... 26
- Paratoi cyn yr asesiad ..... 27
- Penodi panel ..... 27
- Rôl y panel wrth gynnal asesiad o berfformiad gan banel ..... 28

Adroddiad ar asesiad gan banel ........ 30
Cyhoeddi'r adroddiad ar asesiad gan banel ........ 31
Ymateb i'r adroddiad ar yr asesiad gan banel ........ 31
Cynnwys y pwyllgor llywodraethu ac archwilio ........ 32
Cyhoeddi'r ymateb i'r adroddiad ar yr asesiad gan banel ........ 32
Pennod 4 – Arolygiadau arbennig gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ........ 33
Cyflwyniad ........ 33
Y pŵer i gynnal arolygiad arbennig ........ 33
Y ddyletswydd i ymateb i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol – prif gyngor ........ 34
Y ddyletswydd i ymateb i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol – Gweinidogion Cymru ........ 34
Pennod 5 – Cefnogaeth a chymorth i wella perfformiad ac ymyrraeth gan Weinidogion Cymru ........ 36
Cyflwyniad ........ 36
Cefnogaeth a chymorth gan Weinidogion Cymru ........ 36
Pwerau Gweinidogion Cymru i ymyrryd mewn prif gyngor ........ 37

## Crynodeb

Mae'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn darparu ar gyfer sefydlu fframwaith deddfwriaethol newydd a diwygiedig ar gyfer etholiadau llywodraeth leol, democratiaeth, llywodraethiant a pherfformiad.

Mae'r canllawiau drafft hyn yn nodi sut y dylai prif gynghorau gyflawni eu dyletswyddau a nodir yn Rhan 6 o Bennod 1 o'r Bil sy'n ymwneud â pherfformiad a llywodraethiant prif gynghorau.

Bwriedir i'r canllawiau statudol terfynol gael eu rhoi i brif gynghorau pan fydd Rhan 6 o'r Bil yn cychwyn. Yn dilyn yr ymgynghoriad a chyn i'r Bil gychwyn, rhoddir copi o'r canllawiau i gynghorau er mwyn eu helpu i baratoi ar gyfer cyflwyno’r gyfundrefn newydd.

Dylai cyngor ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas ag arfer ei swyddogaethau o dan Ran 6 o Bennod 1 o'r Bil. Golyga hyn fod yn rhaid i gynghorau ystyried y canllawiau ac, os byddant yn penderfynu gwyro oddi wrthynt, sicrhau bod ganddynt resymau clir a chyfiawnadwy dros wneud hynny.

Bwriedir i'r canllawiau helpu cynghorau i ddeall a chyflawni eu dyletswyddau mewn perfformiad a pherfformiad a llywodraethiant, gan gydnabod y bydd cynghorau am gael eu hannog i ddatblygu eu dull gweithredu eu hunain yn unol â'u rhwymedigaethau statudol ehangach, amgylchiadau lleol, strwythurau corfforol ac arferion gorau ac y dylid eu hannog i wneud hynny.

Mae'r canllawiau drafft hyn yn ymdrin yn benodol â'r dyletswyddau canlynol sydd i'w gosod ar brif gynghorau:-

**<u>Y ddyletswydd i adolygu perfformiad yn barhaus</u>**

Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i gyngor adolygu'n barhaus i ba raddau y mae'n bodloni'r ‘gofynion perfformiad’, hynny yw i ba raddau y mae'n gwneud y canlynol:-

- arfer ei swyddogaethau yn effeithiol;
- defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol;
- sicrhau ei fod yn cael ei lywodraethu'n effeithiol er mwyn cyflawni'r uchod.

**<u>Y ddyletswydd i ymgynghori ar berfformiad</u>**

Mae'n rhaid i gyngor ymgynghori ag amrywiaeth o bobl o leiaf unwaith ym mhob blwyddyn ariannol ynghylch i ba raddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad. Yr ymgyngoreion statudol yw:-

a) pobl leol;
b) pobl eraill sy'n rhedeg busnes yn ardal y cyngor;
c) staff y cyngor;
d) pob undeb llafur a gydnabyddir (o fewn ystyr Deddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 (cym. 92)) gan y cyngor.

**Y ddyletswydd i adrodd ar berfformiad**

Mae'n rhaid i gyngor lunio adroddiad hunanasesu mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol. Mae'n rhaid i'r adroddiad nodi ei gasgliadau ynghylch i ba raddau y bodlonodd y gofynion perfformiad yn ystod y flwyddyn honno, ac unrhyw gamau y mae'n bwriadu eu cymryd, neu y mae wedi'u cymryd eisoes, er mwyn cynyddu'r graddau y mae'n bodloni'r gofynion perfformiad.

**Y ddyletswydd i drefnu asesiad o berfformiad gan banel**

Mae'n rhaid i gyngor drefnu i banel gynnal asesiad o leiaf unwaith yn ystod y cyfnod rhwng dau etholiad cyffredin olynol ar gyfer cynghorwyr i'r cyngor, er mwyn nodi i ba raddau y mae'r cyngor yn bodloni ei ofynion perfformiad.

**Y ddyletswydd i ymateb i adroddiad ar asesiad o berfformiad gan banel**

Mae'n rhaid i gyngor baratoi ymateb i bob adroddiad ar asesiad o berfformiad gan banel, gan nodi i ba raddau y mae'n derbyn y casgliadau yn yr adroddiad, i ba raddau y mae'n bwriadu dilyn unrhyw argymhelliad yn yr adroddiad ac unrhyw gamau y mae'r cyngor yn bwriadu eu cymryd er mwyn cynyddu'r graddau y mae'n bodloni'r gofynion perfformiad.

Mae'r canllawiau hyn yn cyfeirio'n benodol at y dyletswyddau hyn ar gyngor ac yn nodi'r disgwyliadau o ran sut y bydd cyngor yn cyflawni'r dyletswyddau hyn.

Ceir darpariaethau eraill yn Rhan 6 o'r Bil, megis pwerau i Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal arolygiadau arbennig o gyngor; pwerau i Weinidogion Cymru roi cefnogaeth a chymorth i gyngor er mwyn gwella ei berfformiad; pwerau i Weinidogion Cymru ymyrryd mewn cyngor nad yw'n bodloni'r gofynion perfformiad neu y mae'n bosibl nad yw'n eu bodloni. Disgrifir yr elfennau hyn o'r Bil yn y canllawiau hyn hefyd, gydag unrhyw ddyletswyddau a osodir ar gynghorau yn y darpariaethau hyn yn cael eu nodi'n glir.

Nodir y canllawiau fel a ganlyn:

**Pennod 1 –** sy'n disgrifio'r cyd-destun polisi lle mae'r dyletswyddau o ran perfformiad a llywodraethiant wedi'u gosod a diben y dyletswyddau**.**

**Pennod 2** – sy'n esbonio'r ddyletswydd i adolygu perfformiad yn barhaus; ddyletswydd i ymgynghori â phobl leol ac eraill ar berfformiad; ac mae'n rhoi canllawiau ar y ddyletswydd i adrodd ar berfformiad, yn benodol drwy gynnal hunanasesiad.

**Pennod 3** – sy'n rhoi canllawiau ar y ddyletswydd i drefnu asesiad o berfformiad gan banel ac ymateb iddo.

**Pennod 4** – sy'n disgrifio pŵer Archwilydd Cyffredinol Cymru i gynnal arolygiad arbennig; dyletswydd cyngor i ymateb i unrhyw argymhellion ar gyfer camau y dylai eu cymryd; a dyletswydd Gweinidogion Cymru i ymateb i unrhyw argymhellion ar gyfer camau y dylent eu cymryd;

**Pennod 5** – sy'n disgrifio pwerau a dyletswyddau Gweinidogion Cymru a chynghorau mewn perthynas â chefnogi perfformiad a helpu i'w wella; a phwerau i Weinidogion Cymru ymyrryd os bydd Gweinidogion o'r farn ei bod yn debygol nad yw'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad neu ei bod yn bosibl nad yw'n eu bodloni.

## Pennod 1 – Cyd-destun polisi a diben y gyfundrefn perfformiad a nodir yn y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

**Cyd-destun polisi**

1.1 Mae prif gynghorau yn atebol yn ddemocrataidd am berfformiad eu gwasanaethau, gan gynnwys eu trefniadau llywodraethu. Cânt eu cynorthwyo drwy gyrff archwilio allanol, arolygu a rheoleiddio sy'n chwarae rôl allweddol wrth sicrhau ansawdd ein gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

1.2 Mae'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn dileu'r ddyletswydd bresennol i wella ar gyfer prif gynghorau a nodir ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ac yn cyflwyno system newydd yn ei lle. Bwriedir i'r dull newydd o weithredu fel y'i nodir yn y Bil fod yn ddull symlach a mwy hyblyg a arweinir gan y sector o sicrhau perfformiad, llywodraethu da a gwelliant. Y bwriad yw y bydd cynghorau yn mynd ati'n rhagweithiol i ystyried sut y dylai prosesau a gweithdrefnau mewnol newid er mwyn i brosesau cynllunio, cyflawni a phenderfynu mwy effeithiol allu cyflawni canlyniadau gwell.

1.3 Mae'r darpariaethau ynglŷn â pherfformiad a llywodraethiant yn y Bil wedi'u llunio o fewn dyletswyddau datblygu cynaliadwy ehangach Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n nodi diben cyffredin cyfreithiol gyfrwymol i'r cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf honno wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n nodi saith nod llesiant y mae'n rhaid i'r cyrff cyhoeddus hyn weithio tuag atynt gyda'i gilydd a phum ffordd o weithio i lywio'r ffordd y dylai cyrff cyhoeddus gyflawni.

1.4 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi'r cyd-destun lle y dylai cynghorau fod yn arfer eu swyddogaethau, yn defnyddio eu hadnoddau ac yn sicrhau bod eu trefniadau llywodraethu yn effeithiol, er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni'r nodau llesiant.

1.5 At hynny, mae ethos y darpariaethau ynglŷn â pherfformiad a llywodraethiant a nodir yn y Bil yn cyd-fynd â'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol, a ddaw i rym ar 31 Mawrth 2021. Bydd y ddyletswydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i brif gynghorau, wrth wneud penderfyniadau strategol megis ‘penderfynu ar flaenoriaethau a phennu amcanion’, ystyried sut y gallai eu penderfyniadau helpu i leihau'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol – gan helpu i sicrhau canlyniadau gwell o ran bywydau a phrofiadau pobl drwy well prosesau gwneud penderfyniadau a chyfrannu ymhellach at ein nod cyffredin o greu “Cymru sy'n fwy cyfartal”.

**Y nodau llesiant fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

| Nod | Disgrifiad o'r nod |
|---|---|
| **Cymru lewyrchus** | Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy’n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy’n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy’n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas. |
| **Cymru gydnerth** | Cenedl sy’n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy’n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â’r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). |
| **Cymru iachach** | Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol. |
| **Cymru sy’n fwy cyfartal** | Cymdeithas sy’n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo’u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a’u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd). |
| **Cymru o gymunedau cydlynus** | Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. |
| **Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu** | Cymdeithas sy’n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a’r Gymraeg ac sy’n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. |
| **Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang** | Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o’r fath gyfrannu’n gadarnhaol at lesiant byd-eang. |

## Y pum ffordd o weithio

**Hirdymor**



Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.

**Atal**



Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.

**Integreiddio**



Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.

**Cydweithio**



Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.

**Cynnwys**



Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu.

## Diben y darpariaethau ar gyfer perfformiad a llywodraethiant

1.6 Diben y darpariaethau ar gyfer perfformiad a llywodraethiant yn y Bil yw cefnogi diwylliant lle mae cynghorau yn mynd ati i geisio a chroesawu her, p'un a gaiff ei chyflwyno o'r tu mewn i'r cyngor, er enghraifft drwy weithdrefnau craffu, neu'n allanol. Bwriedir i'r darpariaethau ddarparu fframwaith sy'n helpu cynghorau, drwy broses adolygu barhaus, i feddwl am eu perfformiad a pha mor effeithiol ydynt nawr ac yn y dyfodol; annog sefydliadau mwy chwilfrydig sy'n barod i herio eu hunain i wneud mwy a bod yn fwy arloesol a mwy uchelgeisiol o ran yr hyn a wnânt.

1.7 Mae'r darpariaethau yn adlewyrchu'r egwyddorion, er mwyn i unrhyw sefydliad fod yn effeithiol, fod angen iddo ddeall ei sefyllfa bresennol, bod yn glir ynghylch yr hyn y mae am ei gyflawni a meddu ar gynllun cadarn o ran y ffordd y bydd yn gwneud hynny. Nid yw sefydliad gwirioneddol effeithiol byth yn cael ei fodloni gan safonau presennol, hyd yn oed os ydynt yn dda neu'n rhagorol, yn hytrach dylai bob amser ymdrechu i wneud mwy.

1.8 Mae'r darpariaethau yn ymgorffori myfyrio ar berfformiad a chamau gweithredu i wella yn y system. Ni fwriedir i hyn fod yn feichus nac yn llethol ond yn hytrach bwriedir iddo sicrhau bod cynghorau yn ystyried ac yn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor er mwyn darparu gwasanaethau effeithiol i'w cymunedau.

1.9 Gwelliant yn y cyd-destun hwn yw gallu'r cyngor i gyflawni yn erbyn blaenoriaethau uniongyrchol a pharhau i allu ymateb i'r amgylchedd sy'n newid

lle mae'n gweithredu.  Mae a wnelo â gallu'r cyngor i ystyried sut mae ei brosesau mewnol a'i staff yn gweithredu er mwyn gwneud penderfyniadau effeithiol ar gyfer yr hirdymor, gan weithio gyda'r cymunedau amrywiol iawn a wasanaethir ganddynt, a sut y bydd yn mynd ati i wella'r rhain er mwyn gwneud penderfyniadau gwell a sicrhau canlyniadau gwell i bawb.

1.10 Dylai cynghorau bob amser fod yn anelu at wneud yn well, nid dim ond cyflawni'r targedau neu'r dyletswyddau gofynnol ond mynd y tu hwnt i'r disgwyliadau, gan sicrhau eu bod yn cyflawni'r canlyniadau cywir ac yn darparu'r hyn sydd ei eisiau ar bobl.  Dylai rhannu arferion gorau a dysgu ohonynt a cheisio bod yn well (hyd yn oed os mai ef yw'r gorau yn y dosbarth) fod yn rhan annatod o ddull gweithredu cyngor.

1.11 Er enghraifft, o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, mae'n ofynnol i awdurdod lleol ddarparu cymorth pan fo unigolion dan fygythiad o ddigartrefedd o fewn 56 diwrnod. Er mai hwn yw'r gofyniad sylfaenol o dan y gyfraith, dylai cynghorau ac asiantaethau partner megis cymdeithasau tai, wrth gyflawni eu swyddogaethau presennol, roi ystyriaeth briodol i'r ffordd y gellir defnyddio'r swyddogaethau hyn er mwyn helpu i ddarparu tai digonol; gan anelu at ymyrryd yn llawer cynt nag sy'n ofynnol o dan y ddeddfwriaeth.

1.12 Dylid ystyried meysydd i'w gwella yn onest a dylid ymchwilio iddynt er mwyn sicrhau y caiff problemau eu hatal neu yr ymdrinnir â nhw cyn iddynt fynd yn systematig. Dylai dull gweithredu o'r fath fod yn rhan annatod o'r ffordd y mae cynghorau yn gweithredu.  Er enghraifft, dylai gweithredwyr cynghorau groesawu ac annog ymchwiliadau craffu er mwyn gwneud argymhellion ar gyfer gwella systemau a bydd Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio yn chwarae rôl allweddol yn y gyfundrefn perfformiad a llywodraethiant.  Y nod yw helpu cynghorau i adeiladu ar gryfderau presennol a chreu sector mwy arloesol, agored, gonest, tryloyw ac uchelgeisiol, sy'n herio ei hun a lle mae cynghorau ar y cyd yn mynd ati i wella canlyniadau a safonau mewn perthynas â'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt ledled Cymru.

1.13 Bydd galluogi a chefnogi newid diwylliannol a sefydliadol o fewn llywodraeth leol drwy'r darpariaethau ynglŷn â pherfformiad a llywodraethiant yn y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn helpu i sicrhau cynghorau cryf a all gyflawni eu hamcanion llesiant a gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol.

## Yr amgylchedd rheoleiddiol ehangach

1.14 Bydd y darpariaethau ynglŷn â pherfformiad a llywodraethiant a geir yn y Bil yn cyd-fynd â threfniadau archwilio, rheoleiddio a phartneriaeth.

1.15 Nodir cyfrifoldebau unigol partneriaid mewn perthynas â'r gyfundrefn perfformiad a llywodraethiant yn fras isod.  Mae rhai o'r rhain yn bwerau a dyletswyddau statudol, a nodir yn y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) neu ddarnau eraill o ddeddfwriaeth, ac mae rhai yn deillio o drefniadau anstatudol.

**Mae prif gynghorau yn gyfrifol am y canlynol:**

- Cynnal hunanasesiadau cadarn ac adrodd ar y graddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad.
- Nodi unrhyw gamau gweithredu i gynyddu'r graddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad, gan gynnwys, er enghraifft, rôl craffu wrth herio a chynyddu'r graddau y mae'r gofynion perfformiad yn cael eu bodloni.
- Comisiynu asesiadau o berfformiad gan banel o leiaf unwaith yn ystod y cyfnod rhwng dau etholiad cyffredin olynol ar gyfer cynghorwyr i'r cyngor.
- Ceisio cymorth / her gan gymheiriaid a phartneriaid lle y bo angen, ac ymgynghori â staff, pobl leol ac undebau llafur ynghylch y graddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad.

**Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) yn gyfrifol am y canlynol:**

- Cefnogi cynghorau yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.
- Darparu gwybodaeth gynnar a chymorth cynnar a arweinir gan y sector er mwyn mynd i'r afael â meysydd i'w gwella a nodwyd, er enghraifft, drwy hunanasesiadau, asesiadau o berfformiad gan banel neu adroddiadau archwilio, arolygu neu reoleiddio.

**Mae Archwilio Cymru[1] yn gyfrifol am y canlynol:**

- Cydgysylltu ei waith ei hun a gwaith rheoleiddwyr eraill.
- Archwilio cyfrifon.
- Edrych ar y ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys eu trefniadau ar gyfer sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau ond heb fod yn gyfyngedig iddynt, a gwneud argymhellion er mwyn sicrhau bod llywodraeth leol yn cynnig gwell gwerth am arian.
- Asesu i ba raddau y mae cynghorau yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

[1] Archwilio Cymru yw nod masnach dau endid cyfreithiol, sef: Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae gan bob un ei bwerau a'i ddyletswyddau penodol ei hun. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff cyhoeddus yng Nghymru ac yn cyflwyno adroddiadau arnynt. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn darparu staff ac adnoddau eraill ar gyfer gwaith yr Archwilydd Cyffredinol ac yn monitro'r Archwilydd Cyffredinol ac yn rhoi cyngor iddo.

- Cynnal ‘Arolygiadau Arbennig’, fel y darperir ar ei gyfer yn y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru).

- Gwneud argymhellion priodol i brif gynghorau a Gweinidogion Cymru

**Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn gyfrifol am y canlynol:**

- Annog gwella'r ffordd y darperir gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol.

- Rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol gan gynnwys adolygu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol o dan Ddeddf Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

- Rhoi cyngor i Weinidogion ar y defnydd posibl o'u pwerau ymyrryd a monitro ymweliadau ag awdurdodau lleol fel sy'n ofynnol ac y cytunir gan y Gweinidog.

- Rhoi cyngor proffesiynol i Weinidogion Cymru.

**Mae Estyn yn gyfrifol am y canlynol:**

- Arolygu, gwerthuso ac adrodd ar berfformiad awdurdodau lleol mewn perthynas â'u dyletswyddau fel y'u disgrifir gan adrannau 38 i 41 o Ddeddf Addysg 1997, adrannau 75, 76,123 a 127 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 ac adrannau 25, 26 a 51 o Ddeddf Plant 2004.

- Gwneud argymhellion priodol i awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru er mwyn cefnogi gwelliant.

1.16 Mae llywodraeth leol, Llywodraeth Cymru ac archwilwyr, arolygwyr, rheoleiddwyr a chomisiynwyr yn cydweithio i ysgogi gwelliant, rhannu gwybodaeth, codi achosion a allai beri pryder a chytuno ar ddulliau o gefnogi gwelliant. Mae meithrin y ddealltwriaeth hon a rennir yn allweddol er mwyn sicrhau ffocws clir ar gyfer gwelliant cyson a pharhaus.

1.17 Dylai prif gynghorau ddefnyddio canfyddiadau pwyllgorau craffu, archwilwyr, arolygwyr, rheoleiddwyr a chomisiynwyr ynglŷn â'r ffordd y mae cyngor yn cyflawni ei swyddogaethau ac yn llywodraethu ei hun er mwyn llywio ei hunanasesiad ac, yn yr un modd, gall y paneli sy'n cynnal asesiad o berfformiad hefyd ddefnyddio'r dystiolaeth hon i lywio eu hargymhellion.

1.18 Fodd bynnag, mae'n bwysig bod hunanasesiadau ac asesiadau o berfformiad gan banel yn gwneud mwy na dim ond dyblygu'r hyn a nodwyd eisoes drwy adroddiadau craffu, archwilio ac arolygu a rheoleiddio. Dylid canolbwyntio ar ddealltwriaeth a rennir o'r hyn y mae pob un o'r ffynonellau hyn, gyda'i gilydd, yn ei ddatgelu ac, yn bwysicaf oll, y camau y dylid eu cymryd o ganlyniad i hynny. Nid yw hunanasesiadau ac asesiadau o berfformiad gan banel, mewn unrhyw ffordd, yn disodli, nac yn cymryd lle, rôl Archwilwyr, Arolygwyr na

Rheoleiddwyr.

1.19 Dylai hunanasesiadau ac asesiadau o berfformiad gan banel o'r ffordd y mae'r cyngor y bodloni'r gofynion perfformiad hefyd gael eu llywio gan drefniadau perfformiad eraill mewn meysydd gwasanaeth penodol ond ni ddylent gael eu dyblygu ganddynt.

1.20 Er enghraifft, mae'r *Cod ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru*[2] yn nodi'r weledigaeth ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru a'r ffordd y caiff gwelliannau i wasanaethau ac ar gyfer unigolion eu cefnogi, eu mesur a'u cynnal gan awdurdodau lleol. Ni fydd y broses hunanasesu a nodir yn y canllawiau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau ailystyried swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol yn fanwl, ond bydd y dystiolaeth sy'n deillio o'r *Cod ymarfer* yn llywio'r ddealltwriaeth strategol ehangach o'r ffordd y mae'r cyngor yn gweithredu yn gyffredinol, yn defnyddio ei adnoddau ac yn cyflawni ar gyfer y bobl yn ei ardal. Yn yr un modd, mae diwygiadau i drefniadau gwerthuso, gwella ac atebolrwydd ar gyfer ysgolion wedi tynnu sylw at bwysigrwydd prosesau hunanwerthuso cadarn a pharhaus ar gyfer pob haen o'r system addysg. Yn achos prif gynghorau, golyga hyn werthuso effeithiolrwydd ac effaith eu gwasanaethau er mwyn cefnogi ysgolion, y gellir ei ddefnyddio hefyd i lywio ei hunanasesiad ehangach.

## Cymorth i wella

1.21 Dim ond un rhan o daith wella cyngor yw adolygu'n barhaus i ba raddau y mae'n bodloni'r gofynion perfformiad.

1.22 Gall yr hunanasesiad a'r asesiad o berfformiad gan banel a gynhelir gan gyngor bennu pryd a sut i fanteisio ar unrhyw gymorth i wella a'r holl gymorth i wella sydd ar gael i gynyddu'r graddau y mae'n bodloni ei ofynion perfformiad.

1.23 Yn y pen draw, y nod yw galluogi cynghorau i nodi a datrys problemau cyn y bydd angen unrhyw gymorth neu ymyrraeth ffurfiol, statudol. Fodd bynnag, mae'r Bil yn cynnwys pŵer i Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal arolygiad arbennig os bydd pryderon nad yw Cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad neu ei bod yn bosibl nad yw'n eu bodloni. Mae'r Bil hefyd yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru roi cymorth a, lle y bo angen, ymyrryd mewn prif gynghorau sy'n wynebu problemau sylweddol.

---

[2] Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Cod ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2020)

## Pennod 2 – Y ddyletswydd i adolygu perfformiad yn barhaus ac adrodd arno drwy hunanasesiad

### Cyflwyniad

2.1 Mae a wnelo'r bennod hon o ganllawiau â'r ddyletswydd ar brif gyngor i adolygu'n barhaus i ba raddau y mae'n bodloni'r gofynion perfformiad ac ymgynghori â phobl leol ac eraill ynghylch hynny.

2.2 Mae hefyd yn ymdrin â'r darpariaethau sy'n ymwneud â hunanasesu a nodir yn y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru). Dylai'r bennod hon o ganllawiau gael ei darllen gan gyngor er mwyn ei helpu i gyflawni ei ddyletswydd i adolygu ei berfformiad yn barhaus a'i ddyletswydd i adrodd ar ei berfformiad drwy adroddiad hunanasesu. Mae'r canllawiau yma yn adlewyrchu'r gofynion sylfaenol ar gyfer hunanasesu, gan gydnabod mai cynghorau sydd yn y sefyllfa orau i adeiladu ar hyn er mwyn datblygu manylion eu dull gweithredu eu hunain.

2.3 Dylid defnyddio canfyddiadau'r hunanasesiad i lywio a nodi meysydd lle y gallai fod angen gwneud gwelliannau neu newidiadau a lle y gallai cymorth a arweinir gan y sector fod yn werthfawr.

### Dyletswydd prif gyngor i adolygu ei berfformiad yn barhaus

2.4 Mae'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor adolygu'n barhaus i ba raddau y mae'n bodloni'r 'gofynion perfformiad', hynny yw i ba raddau y mae'n gwneud y canlynol:-

- **arfer ei swyddogaethau yn effeithiol;**
- **defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol;**
- **sicrhau ei fod yn cael ei lywodraethu'n effeithiol er mwyn cyflawni'r uchod.**

2.5 Bwriedir i'r ddyletswydd i adolygu perfformiad yn barhaus adlewyrchu dyletswyddau parhaol presennol y mae awdurdodau eisoes yn ddarostyngedig iddynt (h.y. eu "swyddogaethau"). Mae cynghorau yn gweithredu o fewn fframwaith statudol o ddyletswyddau cyfreithiol ac ni fwriedir atgynhyrchu'r rhain yn fanwl yma. Mae'r gofynion perfformiad yn rhai cynhwysfawr sy'n ystyried pa mor effeithiol y mae cyngor yn gweithredu, nid yn unig o ran cyflawni amcanion unigol, ond o ran y ffordd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau, yn defnyddio ei adnoddau ac yn llywodraethu ei hun.

### Y ddyletswydd i adrodd ar berfformiad drwy hunanasesu

2.6 Y dull sydd i'w ddefnyddio gan gyngor i adolygu ei berfformiad yn barhaus yw hunanasesu, gyda dyletswydd i gyhoeddi adroddiad sy'n nodi casgliadau'r hunanasesiad unwaith mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol. Caiff yr hunanasesiad ei ategu gan asesiad o berfformiad gan banel unwaith mewn cylch etholiadol, a fydd yn cynnig cyfle i geisio sylwadau allanol (ac eithrio gan

archwilwyr, rheoleiddwyr neu arolygwyr) ar y ffordd y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad.

**Diben hunanasesu**

2.7 Mae hunanasesu yn ffordd o adolygu'r sefyllfa bresennol, yn feirniadol ac yn onest, er mwyn gwneud penderfyniadau ar sut i sicrhau gwelliant i'r dyfodol. Mae mwy i hunanasesu na datgan pa drefniadau sydd ar waith; mae a wnelo ag ystyried pa mor effeithiol ydynt a sut y gellir eu gwella. Mae hunanasesu sut mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad yn rhoi perchenogaeth o'r perfformiad a'r gwelliant yn gadarn i brif gynghorau.

2.8 Mae ystyried i ba raddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad yn asesiad sefydliadol, corfforaethol yn hytrach nag asesiad o wasanaethau unigol. Er enghraifft, dylai ystyried rôl arweinwyr a pha mor effeithiol yw'r gydberthynas rhwng yr arweinwyr gwleidyddol ac uwch-swyddogion yn y cyngor gan sicrhau y gall y cyngor ymateb i'r amgylchedd sy'n newid lle mae'n gweithredu. Mae a wnelo â sicrhau bod cyngor yn hunanymwybodol, ei fod yn deall a yw'n cyflawni'r canlyniadau cywir a'i fod yn herio ei hun i barhau i wella ei berfformiad fel gwarcheidwad yr ardal a'r ffordd y mae'n rheoli'r gwaith o ddarparu gwasanaethau.

2.9 Gall cyngor asesu ei hun drwy ddefnyddio gwybodaeth sydd eisoes yn cael ei dal yn gorfforaethol yn graff, gan fyfyrio ar lefel strategol ar y ffordd y mae'r cyngor yn gweithredu a pha gamau sydd angen eu cymryd er mwyn sicrhau y gall barhau i ddarparu gwasanaethau effeithiol nawr ac yn yr hirdymor.

**Y dull hunanasesu**

2.10 Fel y nodwyd uchod, gall hunanasesu sicrhau bod cyngor yn berchen ar ei berfformiad a'i welliant ei hun. Felly, bydd pob cyngor unigol yn awyddus i benderfynu ar ei ddull hunanasesu ei hun, sydd wedi'i lunio i gyd-fynd ag amgylchiadau lleol a strwythurau corfforaethol ac wedi'u llywio gan arferion gorau, a dylai fod yn rhydd i wneud hynny.

2.11 Yn achos rhai cynghorau, bydd hunanasesu eisoes yn rhan annatod o drefniadau llywodraethu strategol a chorfforaethol parhaus a bydd llawer (os nad pob un) wedi defnyddio hunanasesu fel rhan o'r gwaith o reoli gwasanaethau yn weithredol ac ar lefel gorfforaethol.

2.12 Ar ei lefel symlaf, mae a wnelo hunanasesu â'r ffordd y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad â gofynion y cwestiynau canlynol: pa mor dda rydym yn perfformio?; sut rydym yn gwybod hynny?; beth y gallwn ei wneud yn well a sut? Dylid gofyn y cwestiynau hyn yng nghyd-destun y gofynion perfformiad.

2.13 Nodir isod rai egwyddorion allweddol y dylai cyngor eu hystyried wrth lunio ei ddull gweithredu:

- Nid yw hunanasesiad yn farn sefydlog. Er mwyn bod yn wirioneddol effeithiol, dylai ymgorffori hunanasesu ym mhob rhan o sefydliad fod yn broses barhaus, sy'n mynd i'r afael â phroblemau wrth iddynt godi, ac sy'n ymateb mewn amser real ac yn effeithiol i heriau a chyfleoedd.

- Mae'n gyfle i broses ystyrlon gyfrannu at atgyfnerthu llywodraeth leol, yn hytrach na bod yn ymarfer cydymffurfio.

- Dylai'r broses hunanasesu annog gonestrwydd, gwrthrychedd a thryloywder ynghylch perfformiad a llywodraethiant y cyngor, gan gynnwys ei gydberthnasau allweddol rhwng arweinwyr gwleidyddol a swyddogion a'r ffordd y maent yn cael eu rheoli.

- Byddai dull gweithredu effeithiol yn cael ei berchenogi a'i arwain ar lefel strategol, ond byddai hefyd yn cynnwys aelodau a swyddogion ar bob lefel o'r sefydliad ac amrywiaeth o bobl ar draws cymunedau a phartneriaid.

- Dylai hunanasesiad fod yn ddadansoddiad seiliedig ar dystiolaeth sy'n helpu'r cyngor i ddeall beth mae amrywiaeth o wybodaeth feintiol ac ansoddol sydd ar gael iddo yn ei ddatgelu am y ffordd y mae'n arfer ei swyddogaethau, yn defnyddio ei adnoddau ac yn llywodraethu ei hun.

- Dylai'r hunanasesiad ganolbwyntio ar ganlyniadau, yr hyn a gyflawnwyd yn hytrach na'r broses a gofyn cwestiynau gonest am effaith gweithredoedd y cyngor ar fywydau a phrofiadau pobl.

- Ni ddylai hunanasesu fod yn broses annibynnol, yn hytrach dylai fod wedi'i integreiddio fel rhan o brosesau cynllunio, perfformiad a llywodraethu corfforaethol y cyngor.

2.14 Bydd yr hunanasesiad, o reidrwydd, yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau mewnol ac allanol, gan sicrhau sail dystiolaeth eang er mwyn llywio'r camau y bydd y cyngor yn eu cymryd i gynyddu'r graddau y mae'n bodloni'r gofynion perfformiad yn y dyfodol.

2.15 Gall rhai ffynonellau a allai lywio'r hunanasesiad, ac a fydd ar gael i'r cyngor eisoes, gynnwys:-

- adroddiadau a luniwyd eisoes gan y cyngor mewn ymateb i ofynion statudol, megis yr adroddiad blynyddol ar y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran cyflawni amcanion llesiant y sefydliad fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; datganiad am reolaeth fewnol sy'n ofynnol o dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014; adroddiadau cydraddoldeb blynyddol; adroddiadau blynyddol gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ac ati;

- tystiolaeth o amrywiaeth o ffynonellau arolygu a rheoleiddio, gan gynnwys adroddiadau gan Estyn, Archwilio Cymru, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru;

- hunanwerthusiadau y gall y cyngor fod wedi'u cynnal eisoes mewn perthynas â meysydd gwasanaeth penodol, neu wedi cymryd rhan ynddynt mewn perthynas â gwaith partneriaeth;

- canfyddiadau unrhyw asesiad o'r graddau y mae'r cyngor yn bodloni ei amcanion llesiant, unrhyw adolygiad a gynhaliwyd neu unrhyw gyngor a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru am y ffordd y mae'r cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu a chymryd camau er mwyn cyflawni ei amcanion llesiant;

- unrhyw ymchwiliad neu asesiad a gynhaliwyd, unrhyw gyngor a roddwyd neu unrhyw argymhelliad a wnaed gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol mewn perthynas ag atgyfnerthu camau gweithredu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau allweddol;

- unrhyw adroddiadau hunanwerthuso ar y swyddogaeth graffu yn erbyn y canlyniadau a'r nodweddion ar gyfer gwaith goruchwylio a chraffu effeithiol gan lywodraeth leol;

- dangosyddion rheoli perfformiad (er y bydd angen i'r hunanasesiad fod yn ehangach nag asesiad o ddangosyddion perfformiad meintiol yn unig);

- arolygon staff ac allbynnau unrhyw brosesau ymgysylltu eraill â staff megis fforymau undebau llafur;

- canmoliaeth a chwynion o ffynonellau mewnol ac allanol.

2.16 Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr a bydd cynghorau yn awyddus i benderfynu drostynt eu hunain pa wybodaeth fydd yn llywio'r hunanasesiad orau ac yn arwain at gasgliadau seiliedig ar dystiolaeth am y ffordd y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad. Bydd yn bwysig bod cynghorau yn ystyried yn ofalus sut i gael y gwerth mwyaf posibl o'r ffynonellau tystiolaeth ger eu bron, gan ofyn cwestiynau am y dystiolaeth a'i dehongli er mwyn deall beth mae'n ei ddatgelu a sut i weithredu arno.

2.17 Wrth ystyried effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu, efallai y bydd y cyngor hefyd yn awyddus i ystyried *'Delivering Good Governance in Local Government'*, a luniwyd gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth a SOLACE, yn ogystal â'r nodiadau cyfarwyddyd cysylltiedig.

2.18 Wrth ddod i gasgliadau ei hunanasesiad, mae'n rhaid i'r cyngor hefyd ystyried barn y canlynol am y graddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad yn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad hunanasesu yn ymwneud â hi:-

- pobl leol;
- pobl eraill sy'n rhedeg busnes yn ardal y cyngor;
- staff y cyngor;
- pob undeb llafur a gydnabyddir (o fewn ystyr Deddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 (cym. 92) gan y cyngor

2.19 Gall y cyngor nodi'r croestoriad o staff, pobl leol a busnesau a phenderfynu sut yr ymgynghorir â nhw wrth wneud hynny – er enghraifft, gall y cyngor fod yn fodlon y gellid gwneud hynny drwy ei ymgorffori fel rhan o ddull ymgysylltu ehangach yn hytrach nag fel ymgynghoriad annibynnol, efallai y bydd hefyd yn awyddus i ystyried hyn wrth iddo fwrw ymlaen â'r gwaith o roi'r gofynion i lunio strategaeth cyfranogiad y cyhoedd, a nodir rywle arall yn y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), ar waith. Y brif flaenoriaeth yw sicrhau bod y cyngor yn ystyried barn yr uchod wrth ddod i'w gasgliadau ynghylch i ba raddau y mae'n bodloni'r gofynion perfformiad.

2.20 Dylai'r cyngor gasglu a defnyddio gwybodaeth er mwyn adlewyrchu profiadau pobl o grwpiau gwarchodedig gwahanol a'r rhai sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol a'r effaith arnynt. Efallai y bydd y Cyngor yn cadw gwybodaeth berthnasol eisoes fel rhan o'i rwymedigaethau o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, neu'r wybodaeth y bydd yn ei defnyddio i ddangos ei fod wedi rhoi sylw dyledus o dan y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol sydd i'w chyflwyno.[3]

2.21 Er mai dyma'r gofyniad sylfaenol o ran ymgynghori ynghylch sut mae'r cyngor yn perfformio a nodir yn y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), caiff y cyngor ymgynghori â'r cyfryw bobl eraill ag y bydd yn cefnogi ei hunanasesiad ei hun orau, yn ei farn ef. Efallai y bydd y cyngor hefyd am ymgynghori â phartneriaid, er enghraifft, cynghorau cymuned a thref neu gyrff cyhoeddus eraill yn yr ardal er mwyn cael darlun cyflawn i lywio ei hunanasesiad. Wrth ystyried sut mae'n bodloni'r gofynion perfformiad, disgwylid i asesiad o waith partneriaeth a threfniadau cydweithredu gael ei gynnal fel dangosydd allweddol o'r ffordd y mae cyngor yn arfer ei swyddogaethau, yn defnyddio ei adnoddau ac yn llywodraethu ei hun.

**Rhoi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar waith**

2.22 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn nodi diben cyffredin cyfreithiol gyfrwymol i'r cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf honno wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn nodi saith nod llesiant[4] y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf weithio tuag atynt gyda'i gilydd:-

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru sy'n fwy cyfartal

---

[3] Dylai cynghorau gasglu a defnyddio gwybodaeth er mwyn adlewyrchu profiadau pobl o grwpiau gwarchodedig gwahanol a'r rhai sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol a'r effaith arnynt

[4] Gweler tudalen 8 am ddiffiniadau llawn o'r nodau.

- Cymru iachach
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

2.23 Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus gyflawni eu dyletswydd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gan weithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sy'n yn golygu bod yn rhaid iddynt weithredu mewn modd sy'n sicrhau y diwellir anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

2.24 Er mwyn dangos eu bod wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, mae'n rhaid i gorff cyhoeddus ystyried pum ffordd o weithio, sef:

- **Hirdymor:** pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a’r angen am ddiogelu’r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.
- **Atal:** sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.
- **Integreiddio:** ystyried sut y gall amcanion llesiant cyrff cyhoeddus effeithio ar bob un o’r nodau llesiant, ar bob un o’u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.
- **Cydweithio:** gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu’r corff i fodloni ei amcanion llesiant.
- **Cynnwys:** pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni’r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny’n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu.

2.25 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi'r cyd-destun lle y dylai cyngor fod yn arfer ei swyddogaethau, yn defnyddio ei adnoddau ac yn sicrhau bod ei drefniadau llywodraethu yn effeithiol, er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni'r nodau llesiant. Mae'r Ddeddf yn pennu'r fframwaith lle mae'n rhaid i gyngor ystyried ei berfformiad, o ran darparu gwasanaethau, a gallu ac adnoddau corfforaethol i ddiwallu anghenion defnyddwyr presennol, heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

2.26 Mae'r canllawiau statudol[5] ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynnwys set graidd o weithgareddau sy'n gyffredin i drefniadau llywodraethu corfforaethol cyrff cyhoeddus, sef:-

- Cynllunio corfforaethol
- Cynllunio ariannol
- Cynllunio’r gweithlu (pobl)
- Caffael
- Asedau
- Rheoli risg

[5] Canllawiau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

- Rheoli Perfformiad

2.27 Bydd ystyried y saith maes corfforaethol fel fframwaith ar gyfer yr hunanasesiad a chymhwyso'r pum ffordd o weithio at y meysydd hynny, yn helpu'r cyngor i sicrhau ei fod yn llywodraethu ei hun mewn ffordd sy'n sicrhau ei fod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni'r nodau llesiant ac yn cyflawni ei amcanion llesiant ei hun.

**Adroddiad hunanasesu**

2.28 Er ei bod yn ofynnol i'r cyngor lunio a chyhoeddi adroddiad hunanasesu unwaith mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, mater i'r cyngor yw penderfynu pryd yn union y dylai wneud hynny er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd orau â'i drefniadau corfforaethol ei hun. Fodd bynnag, dylid llunio'r adroddiad cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl y flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi.

2.29 Mae'n rhaid i'r adroddiad hunanasesu nodi casgliadau ynghylch i ba raddau y bodlonodd y cyngor y gofynion perfformiad yn ystod y flwyddyn ariannol honno, ac unrhyw gamau y bydd yn eu cymryd, neu y mae wedi'u cymryd eisoes, er mwyn cynyddu'r graddau y bydd yn bodloni'r gofynion perfformiad. Dylai'r pwyslais fod ar ddeall sut mae'r cyngor yn gweithredu ar hyn o bryd, y galw tebygol y bydd yn ei wynebu yn y dyfodol a sut y gall feithrin cynaliadwyedd. Y tu hwnt i hynny, mater i'r cyngor yw ystyried y fformat mwyaf priodol ar gyfer yr adroddiad yn seiliedig ar yr hyn a fyddai'n cyd-fynd orau ag amgylchiadau lleol.

2.30 Bwriedir i'r adroddiad hunanasesu fod yn ddogfen ddysgu. Gallai gynnwys dim mwy na chrynodeb o'r gwersi a ddysgwyd o'r hunanasesiad, y ffynonellau sydd wedi llywio'r casgliadau a gwybodaeth gryno er mwyn ateb y cwestiynau allweddol am y ffordd y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad: pa mor dda rydym yn perfformio; sut rydym yn gwybod hynny; beth y gallwn ei wneud yn well a sut.

2.31 Ac eithrio yn achos yr adroddiad hunanasesu cyntaf, mae'n rhaid i'r adroddiad hefyd gynnwys adolygiad o gamau gweithredu a ddeilliodd o adroddiad y flwyddyn flaenorol, ynghyd ag ystyriaeth o'r cynnydd a wnaed o ran eu cyflawni, a'r ffordd y gwnaethant gynyddu'r graddau y bodlonodd y cyngor y gofynion perfformiad.

2.32 Efallai y bydd y cyngor yn awyddus i ystyried cyfleoedd i integreiddio ei adroddiad hunanasesu ag adroddiadau ar ddyletswyddau eraill, er enghraifft efallai y bydd yn cyhoeddi ei adroddiad ar y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran cyflawni ei amcanion llesiant fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn yr un ddogfen â'r hunanasesiad. Wrth ystyried cyfleoedd i integreiddio hunanasesu â dyletswyddau eraill, bydd angen i'r cyngor fod yn fodlon, fodd bynnag, fod pob un o'i ddyletswyddau statudol wedi'u cyflawni'n llwyr.

## Cymryd camau mewn perthynas â hunanasesu

2.33 Drwy'r hunanasesiad bydd y cyngor yn nodi meysydd lle y gall gymryd camau i gynyddu'r graddau y mae'n bodloni'r gofynion perfformiad a rhoi cynllun ar waith er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei wneud. Dylid ystyried mai dechrau'r broses yw'r hunanasesiad, yn hytrach na bod yn nod ynddo'i hun. Gall y casgliadau, er enghraifft, lywio'r amcanion llesiant neu'r cynlluniau cyflawni corfforaethol, neu gynlluniau gwaith craffu fel y bo'n briodol.

2.34 Dylai'r cyngor fynd i'r afael â chanfyddiadau'r hunanasesiad mewn ffordd ragweithiol. Dylai'r hunanasesiad lywio ystyriaethau o'r ffordd y dylai prosesau a gweithdrefnau mewnol newid i gefnogi prosesau cynllunio, cyflawni a gwneud penderfyniadau mwy effeithiol er mwyn gwella canlyniadau, a chyflwyno ffyrdd arloesol o gyflawni ei swyddogaethau'n well.

2.35 Dylai sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau yn yr hirdymor fod wrth wraidd y camau gweithredu. Gall hyn gynnwys ystyried yr hirdymor o ran tueddiadau, risgiau a chyfleoedd yn y dyfodol, ystyried ffyrdd amgen o ddarparu gwasanaethau megis defnyddio technolegau digidol neu gydweithio â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector.

2.36 Lle mae pryderon penodol yn codi o'r hunanasesiad, gall y cyngor arwain drwy nodi cyfleoedd ar gyfer hunangymorth a chymorth a arweinir gan y sector a chyfleoedd i gynnwys eraill fel y bo'n briodol. Mae ceisio trafodaethau o'r fath yn gynnar er mwyn ymateb yn weithredol yn arwydd o sefydliad agored, blaengar sy'n benderfynol o gyflawni ar gyfer ei gymunedau.

## Pwy y dylid ei gynnwys yn yr hunanasesiad

2.37 Y cyngor llawn neu ei bwyllgor gweithredol (fel y pennir gan gyngor) fydd yn gyfrifol am fodloni'r gofyniad i lunio adroddiad hunanasesu. Fel y trafodwyd eisoes yn y canllawiau hyn, bydd yn ofynnol i gynghorau gynnwys amrywiaeth eang o randdeiliaid a phobl leol yn ei hunanasesiad. At hynny, bydd cynnwys aelodau o grwpiau rheoli a gwrthwynebu, penaethiaid gwasanaeth, y swyddogaeth perfformiad corfforaethol a chyflogeion ar bob lefel yn yr hunanasesiad yn helpu i ymgorffori'r dull gweithredu yn niwylliant y sefydliad a chreu darlun manwl er mwyn llywio'r asesiad.

2.38 Mae craffu yn rhan allweddol o'r broses o herio perfformiad cyngor, a'r ffordd y mae'n trefnu ei hun wrth ddarparu gwasanaethau cynaliadwy, mewn modd adeiladol. Dylai'r cyngor benderfynu ar y ffordd orau o gynnwys ei bwyllgor craffu yn yr hunanasesiad o'r graddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad.

2.39 Dylai'r cyngor hefyd ystyried sut i gynnwys partneriaid megis byrddau gwasanaethau cyhoeddus a'r bwrdd partneriaeth rhanbarthol ac ati ar gyfer eu hardal.

## Cynnwys pwyllgor llywodraethu ac archwilio'r cyngor

2.40 Mae'n rhaid i'r cyngor drefnu bod drafft o'i adroddiad hunanasesu ar gael i'w bwyllgor llywodraethu ac archwilio. Mae'n rhaid i'r pwyllgor adolygu'r adroddiad drafft a gall wneud argymhellion ar gyfer newidiadau i'r casgliadau neu'r camau y mae'r cyngor yn bwriadu eu cymryd.

2.41 Os na fydd y cyngor yn gwneud newid a argymhellwyd gan y pwyllgor llywodraethu ac archwilio, mae'n rhaid iddo nodi'r argymhelliad a'r rhesymau pam na wnaeth y cyngor y newid yn yr adroddiad hunanasesu terfynol.

## Cyhoeddi'r adroddiad hunanasesu

2.42 Mae'n rhaid i'r adroddiad hunanasesu gael ei gyhoeddi o fewn pedair wythnos i'r dyddiad y'i cwblhawyd yn unol â phrosesau'r cyngor y cytunwyd arnynt, a dylid trefnu bod copi ar gael i bwyllgor llywodraethu ac archwilio'r cyngor. Dylai'r adroddiad hefyd gael ei anfon at:-

- Archwilydd Cyffredinol Cymru
- Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
- Gweinidogion Cymru[6]

2.43 Wrth gwrs, gall y cyngor rannu'r adroddiad ag unrhyw berson neu sefydliad arall y mae'r cyngor yn dymuno ei rannu ag ef.

[6] Mae hyn yn cynnwys Arolygiaeth Gofal Cymru

## Pennod 3 – Y ddyletswydd i drefnu asesiad o berfformiad gan banel ac ymateb iddo.

**Cyflwyniad**

3.1 Mae a wnelo'r bennod hon o ganllawiau â'r gofynion sy'n ymwneud ag asesiad o berfformiad gan banel a nodir y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru). Mae'r canllawiau yma yn adlewyrchu'r gofynion sylfaenol ar gyfer asesiad o berfformiad gan banel fel y'u nodir yn y Bil, gan gydnabod y bydd cynghorau yn awyddus i ddatblygu manylion eu dull gweithredu eu hunain.

3.2 Bwriedir i'r dyletswyddau mewn perthynas ag asesiad o berfformiad gan banel ddod i rym o ddechrau'r cylch etholiadol llywodraeth leol nesaf ym mis Mai 2022.

3.3 Y bwriad yw y caiff y darpariaethau ynglŷn â pherfformiad a llywodraethiant yn y Bil eu hategu gan ddull cydgysylltiedig o sicrhau gwelliant a darparu cymorth a arweinir gan y sector. Mae canfyddiadau ac argymhellion yr asesiad o berfformiad gan banel yn cynnig safbwynt allanol a dylid eu defnyddio i lywio a nodi meysydd lle y gallai cymorth a arweinir gan y sector fod yn werthfawr. Bydd hyn yn gymwys yn achos cynghorau unigol a dylai hefyd lywio'r gwaith o ddatblygu a darparu unrhyw gymorth i wella arfaethedig yn genedlaethol.

3.4 Dylai'r bennod hon o ganllawiau gael ei darllen gan brif gyngor er mwyn ei helpu i gyflawni ei ddyletswydd i drefnu asesiad o berfformiad gan banel a chyhoeddi adroddiad ar asesiad o berfformiad gan banel ac ymateb iddo. Gall y bennod hon hefyd gael ei darllen gan aelodau'r panel er mwyn eu helpu i gynnal asesiad o berfformiad gan banel. Gall aelodau'r panel hefyd gyfeirio at y canllawiau ar hunanasesu er mwyn deall sut mae'n ofynnol i gynghorau gyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas â hunanasesu am y gallai hyn fod yn ddefnyddiol i lywio eu dull o gynnal asesiad gan banel.

**Dyletswydd prif gyngor i drefnu asesiad o berfformiad gan banel**

3.5 Mae'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i gyngor wneud trefniadau i banel annibynnol, a benodir gan y cyngor, asesu i ba raddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad – sef asesiad o berfformiad gan banel. Diffinnir y gofynion perfformiad fel y graddau y mae'r cyngor yn gwneud y canlynol:-

- arfer ei swyddogaethau yn effeithiol;
- defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol;
- sicrhau ei fod yn cael ei lywodraethu'n effeithiol er mwyn cyflawni'r uchod.

3.6 Mae'r canllawiau hyn yn nodi diben yr asesiad gan banel; yn cynnig y camau a ddylai fod yn rhan o asesiad; yn ymdrin â materion sy'n ymwneud ag amseriad asesiad gan banel; yn disgrifio'r gofynion a'r ystyriaethau sylfaenol wrth benodi panel; ac yn ymdrin â'r trefniadau ar gyfer ymateb i adroddiad ar asesiad o berfformiad gan banel.

3.7 Wrth gwrs, gall cynghorau gomisiynu cymorth tebyg i asesiad o berfformiad gan banel at sawl diben arall, megis adolygiadau gan gymheiriaid sy'n ymdrin â gwasanaethau neu faterion penodol neu sy'n seiliedig ar themâu penodol. Mae'r rhain i gyd yn rhan o daith wella'r cyngor a gallant ategu'r asesiad statudol corfforaethol ar lefel sefydliadol o berfformiad gan banel sy'n ofynnol o dan y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) ond ni allant ei ddisodli.

**Diben asesiad o berfformiad gan banel**

3.8 Dim ond un elfen o ddull a arweinir gan y sector o sicrhau perfformiad, llywodraethu da a gwelliant yw asesiad o berfformiad gan banel. Gall asesiad effeithiol o berfformiad gan banel lywio taith wella'r cyngor, gan adeiladu ar yr hunanasesiad, gan ei helpu i ystyried y dyfodol o safbwynt gwahanol. Dylai'r asesiad gan banel gynnig safbwyntiau gwahanol; rhywfaint o her allanol gwrthrychol ac annibynnol; a chyfle i brofi syniadaeth gyda chymheiriaid arbenigol diduedd.

3.9 Bydd yr asesiad o berfformiad gan banel yn asesu i ba raddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad, yn union fel y gwna'r cyngor drwy hunanasesiad. Nid oes a wnelo â rhestrau gwirio, nid math o arolygiad ydyw, ac nid yw'n archwiliad. Ei nod yw helpu'r cyngor i gyflawni ei ddyheadau drwy feithrin a gwella ei ddealltwriaeth o'r ffordd y mae'n gweithredu a sut y gall sicrhau y bydd yn gallu cynnig gwasanaethau effeithiol yn yr hirdymor.

3.10 Ni fydd y panel yn gyfrifol am ddwyn y cyngor i gyfrif, ond dylai roi barn allanol ar y ffordd y mae'r cyngor yn gweithredu. Ni fydd hyn yn disodli'r rôl a chwaraeir gan archwilwyr, arolygwyr na rheoleiddwyr wrth roi sicrwydd. Mae a wnelo hyn â helpu cynghorau i ddeall sut y gallant wella'r graddau y maent yn bodloni'r gofynion perfformiad.

3.11 Mater i'r cyngor yw penderfynu sut i wneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r asesiad o berfformiad gan banel a sicrhau y caiff ei ganfyddiadau eu defnyddio ochr yn ochr â ffynonellau eraill i benderfynu ar ei ddull o ymdrin â pherfformiad corfforaethol, llywodraethiant a gwelliant.

3.12 Mae asesiad o berfformiad gan banel yn rhan o ddiwylliant lle mae cynghorau yn agored i her ac yn ei groesawu, p'un a gaiff ei gyflwyno o'r tu fewn i'r awdurdod neu, yn yr achos hwn, yn allanol. Dylid ystyried bod yr asesiad yn broses heriol, ond adeiladol, ac yn ddull effeithiol a chymesur o ddysgu'n barhaus sut i wneud y cyngor yn gryfach.

3.13 Mae ymchwil wedi dangos y budd y gall cyngor ei gael o geisio safbwynt cymheiriaid, fel y safbwynt a ddarperir gan asesiad o berfformiad gan banel, ar lefel sefydliadol, gorfforaethol.[7] Er enghraifft, nodwyd y gall safbwynt o'r fath a ddarperir gan gymheiriaid gadarnhau dealltwriaeth y cyngor ei hun o'r hyn sydd ei angen ac ategu'r achos dros newid, yn ogystal â chefnogi neu annog newid sefydliadol neu newid ymddygiad.

[7] gweler Downe, J., Bottrill, I. a Martin, S. (Chwefror 2017) *'Rising to the challenge: an independent evaluation of the LGA's corporate peer challenge programme'.* Ysgol Fusnes Caerdydd: Canolfan Ymchwil Llywodraeth Leol a Rhanbarthol.

**<u>Y dull o gynnal asesiad o berfformiad gan banel</u>**

3.14 Bydd pob cyngor unigol am benderfynu ar ei ddull ei hun o gynnal asesiad o berfformiad gan banel (o fewn y paramedrau eang a nodir gan y Bil).

3.15 Er mai mater i'r cyngor a'r panel fydd penderfynu ar hyn yn y pen draw, byddem yn disgwyl i asesiad o berfformiad gan banel gynnwys y camau canlynol:-

**Cam 1 - Paratoi**

Arweinir y cam hwn gan y cyngor a dylai gynnwys:-

- **Cwmpasu gofynion** yr asesiad o berfformiad gan banel. Efallai y bydd y cyngor am weithio gyda phartneriaid er mwyn gwneud hyn ac ystyried unrhyw heriau penodol a nodwyd yn ei hunanasesiad neu mewn adroddiadau archwilio, arolygu neu reoleiddio diweddar. Bydd hyn yn helpu i nodi'r sgiliau a'r arbenigedd sydd eu hangen gan y panel er mwyn sicrhau bod yr asesiad yn cael yr effaith fwyaf posibl.

- **Nodi a chomisiynu panel** i gynnal yr asesiad.

- **Pennu'r cylch gorchwyl** ar gyfer asesiad o berfformiad gan y panel ac, unwaith y bydd wedi'i sefydlu, cytuno ar y cylch gorchwyl gyda chadeirydd y panel. Bydd hyn hefyd yn cynnig cyfle i drafod disgwyliadau a'r dull o gynnal yr asesiad.

- **Rhannu gwybodaeth berthnasol** â'r panel er mwyn gosod y cyd-destun ar gyfer yr asesiad.

- **Gwneud trefniadau ymarferol** fel sy'n ofynnol gan y panel i'w alluogi i gynnal yr asesiad yn effeithiol.

**Cam 2 – Adolygu**

Arweinir y cam hwn yn bennaf gan y panel a dylai gynnwys:-

- **Adolygiad desg gan y panel** er mwyn llywio ei syniadaeth a'i benderfyniadau cychwynnol ynghylch meysydd y mae'n awyddus i ganolbwyntio arnynt yn ystod yr ymweliad â'r safle**.**

- **Trafodaethau rhwng y panel** a'r aelodau etholedig, swyddogion a rhanddeiliaid eraill ynghylch meysydd o fewn cwmpas yr asesiad.[8]

[8] Dylai paneli gasglu a defnyddio gwybodaeth er mwyn adlewyrchu profiadau pobl o grwpiau gwarchodedig gwahanol a'r rhai sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol a'r effaith arnynt

- **Y panel yn cyflwyno'r prif ganfyddiadau ar lafar.**

**Cam 3 – Gwaith dilynol**

Dylai'r cam hwn gynnwys y canlynol:-

- Y cyngor yn anfon ei **adroddiad terfynol** i'r cyngor.

- Y cyngor **yn ystyried ei ymateb** i asesiad y panel, gan gynnwys y **camau y mae'n bwriadu eu cymryd yn sgil yr hyn a ddysgwyd** o'r asesiad.

- Y cyngor **yn cynnwys ei bwyllgor llywodraethu ac archwilio** ac yn ystyried unrhyw argymhellion y mae'r pwyllgor yn eu gwneud mewn ymateb i'r asesiad o berfformiad gan y panel.

<u>**Amseru**</u>

3.16 Mae'r ddyletswydd i drefnu asesiad o berfformiad gan banel o leiaf unwaith yn ystod cylch etholiadol yn golygu y dylid ei gynnal yn y cyfnod rhwng etholiadau cyffredin ar gyfer cynghorwyr i'r cyngor. Gall cyngor ddewis comisiynu mwy nag un asesiad gan banel mewn cylch etholiadol, ond nid yw'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth.

3.17 Mater i'r cyngor yw dewis yr adeg yn ystod y cylch etholiadol pryd mae asesiad o berfformiad gan banel yn debygol o fod fwyaf buddiol i'r cyngor. Dylai'r cyngor ystyried sut y gellir amseru'r asesiad o berfformiad gan banel orau er mwyn iddo gyd-fynd ag agweddau eraill ar ei ddull llywodraethu corfforaethol ac arolygiadau neu asesiadau penodol eraill o wasanaethau. Efallai y bydd y cyngor hefyd yn awyddus i ystyried amseriad unrhyw adolygiadau gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac archwiliadau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, er mwyn sicrhau y ceir y gwerth mwyaf posibl o'r asesiad o berfformiad gan banel. Efallai y bydd y cyngor yn awyddus i geisio cyngor gan arolygiaethau, rheoleiddwyr neu Archwilio Cymru ar y pwynt hwn.

3.18 Yr unig ofyniad o ran amseriad asesiad yw bod yn rhaid i'r trefniadau alluogi'r cyngor i gyhoeddi adroddiad ar asesiad o berfformiad gan banel o leiaf chwe mis cyn dyddiad yr etholiad cyffredin nesaf. Efallai y bydd cynghorau yn awyddus i ystyried amseriad yr asesiad mewn perthynas â'r cod ymarfer a argymhellir ar gyhoeddusrwydd awdurdodau lleol a pheidio â'i gadael yn rhy hwyr yn y cylch i asesiad gan banel allu cael ei gomisiynu a'i gwblhau.

3.19 Gallai cynghorau, mewn egwyddor, gomisiynu asesiad o berfformiad gan banel tua dechrau cylch etholiadol a'r asesiad nesaf tua diwedd y cylch etholiadol nesaf. Gallai hyn olygu bwlch o naw mlynedd rhwng asesiadau o berfformiad gan banel. Er y gallai cynghorau wneud hyn dylent geisio ei osgoi a gallai godi amheuon ynghylch a yw cyngor yn arfer ei swyddogaethau yn effeithiol mewn perthynas â'i berfformiad a'r ffordd y caiff ei lywodraethu.

**Paratoi cyn yr asesiad**

3.20 Ni ddylai cyngor deimlo bod yn rhaid iddo ‘brofi’ unrhyw beth i'r panel ac, felly, ni ddylai'r gwaith paratoi cyn asesiad gan banel fod yn rhy feichus. Fodd bynnag, cydnabyddir y bydd asesiad o berfformiad gan banel yn gofyn am adnoddau gweinyddol er mwyn helpu'r panel gyda threfniadau ymarferol, megis trefnu cyfarfodydd a grwpiau ffocws a chyfleusterau priodol i'w defnyddio gan y panel.

3.21 Bydd y panel hefyd yn dymuno gweld dogfennau allweddol fel rhan o'i asesiad sy'n golygu y bydd angen neilltuo amser swyddogion i'w coladu, ond ni ragwelir y bydd hyn yn cynnwys paratoi unrhyw adroddiadau newydd, am y dylai fod amrywiaeth o wybodaeth (gan gynnwys yr adroddiad hunanasesu) ar gael eisoes.

**Penodi panel**

3.22 Y cyngor sy'n gyfrifol am nodi aseswyr panel, gan gomisiynu'r panel i gynnal yr asesiad a thalu unrhyw gostau cysylltiedig.

3.23 Bydd y broses o ddewis aelodau'r panel yn allweddol i sicrhau asesiad effeithiol ac ystyrlon. Dylai'r cyngor sicrhau bod gan y panel brofiad, gwybodaeth a safbwyntiau ymarferol amrywiol, y bydd yn gweithredu ag uniondeb a gwrthrychedd, ac yn gallu rhoi sicrwydd y bydd y cyngor yn ymddiried yn ei ganfyddiadau. Dylai'r cyngor hefyd ystyried pwysigrwydd amrywiaeth wrth benodi'r panel.

3.24 Er mwyn sicrhau ei annibyniaeth, rhaid i aelodau'r panel fod wedi'u gwahanu ddigon oddi wrth y cyngor er mwyn iddynt ddod i gasgliadau diduedd a gwrthrychol ynghylch y ffordd y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad. Er enghraifft, ni ddylid ystyried unrhyw un sy'n aelod o awdurdod sydd i'w asesu, neu sy'n un o'i swyddogion, ar gyfer ei benodi i'r panel. Ni ddylai aelod o'r panel deimlo'n anesmwyth mewn unrhyw ffordd wrth gynnig asesiad o'r ffordd y mae'r cyngor y bodloni'r gofynion perfformiad.

3.25 Gall aelodau'r panel ddod o'r sector llywodraeth leol, y sector cyhoeddus ehangach, y trydydd sector a'r sector preifat. Gall aseswyr panel hefyd feddu ar brofiad o Gymru neu leoedd ymhellach i ffwrdd. Er ei bod yn bwysig bod gan gyfran o'r panel ddealltwriaeth dda o natur gymhleth gweithio mewn amgylchedd gwleidyddol a'r effaith y gall hyn ei chael ar ddiwylliant a blaenoriaethau sefydliadol, gall y rhai sydd â phrofiad o sectorau eraill a gweithio gyda llywodraeth leol gynnig gwybodaeth werthfawr.

3.26 Er mwyn bod mor effeithiol â phosibl, dylai'r panel gael ei arwain gan gymheiriaid a chynnwys cymysgedd o uwch-swyddogion profiadol, cynghorwyr ac eraill sy'n gweithio gyda llywodraeth leol a all ennyn hyder y cyngor a sicrhau y caiff cynghorau eu herio a'u cefnogi yn y ffordd fwyaf priodol ac y cânt yr argymhellion adeiladol mwyaf priodol.

3.27 Disgwylid i unrhyw asesiad gan banel a gomisiynwyd o dan ddyletswyddau’r cyngor a nodir yn y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) gynnwys y canlynol, o leiaf:-

- Cadeirydd annibynnol ar y panel – nid yw'n gwasanaethu mewn rôl swyddogol na gwleidyddol o fewn llywodraeth leol

- Cymar o'r sector cyhoeddus ehangach, y sector preifat neu'r sector gwirfoddol

- Uwch-swyddog sy'n gwasanaethu o fewn llywodraeth leol, sy'n debygol o fod yn brif weithredwr neu'n gyfarwyddwr

- Uwch-aelod etholedig

3.28 Gall y cyngor ddewis penodi aelodau ychwanegol eraill o'r panel fel y gwelant yn dda, er enghraifft swyddogion ar lefelau eraill, mwy o gynrychiolwyr o bartneriaid neu arbenigwyr allanol eraill. Efallai y bydd y cyngor hefyd yn awyddus i bennu swyddog i weithio gyda'r panel tra bydd yr asesiad yn mynd rhagddo, er mwyn darparu cymorth gweinyddol a chydgysylltu gweithgarwch ym mhob rhan o'r awdurdod.

**<u>Rôl y panel wrth gynnal asesiad o berfformiad gan banel</u>**

3.29 Bydd yn ofynnol i'r panel asesu ar y cyd i ba raddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad, hynny yw i ba raddau y mae'n gwneud y canlynol:-

- arfer ei swyddogaethau yn effeithiol;
- defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol;
- sicrhau ei fod yn cael ei lywodraethu'n effeithiol er mwyn cyflawni'r uchod.

3.30 Fel hyn, bydd y panel yn adeiladu ar yr hunanasesiadau a gynhaliwyd eisoes gan y cyngor ac yn eu hategu. Efallai y bydd yn ofynnol i'r panel gyfeirio at y canllawiau ar hunanasesu er mwyn llywio ei ddull o gynnal yr asesiad gan banel. Dylai'r panel ganolbwyntio ar edrych ar y sefyllfa bresennol a dros gyfnod blaenorol digon hir er mwyn cael darlun ystyrlon o'r sefyllfa yn y cyngor ac unrhyw dueddiadau. Bydd y panel yn ystyried i ba raddau y gall y cyngor ymateb i'r amgylchedd sy'n newid lle mae'n gweithredu ac y gellir llywio ei waith drwy ddefnyddio'r ffyrdd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:-

- **Hirdymor:** pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a’r angen am ddiogelu’r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.
- **Atal:** sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.
- **Integreiddio:** ystyried sut y gall amcanion llesiant cyrff cyhoeddus effeithio ar bob un o’r nodau llesiant, ar bob un o’u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.

- **Cydweithio:** gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.
- **Cynnwys:** pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu.

3.31 Efallai y bydd hefyd yn ddefnyddiol i'r panel ystyried y gweithgareddau sy'n gyffredin i drefniadau llywodraethu cyrff cyhoeddus fel y'u nodir yn y canllawiau statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[9]:-

- Cynllunio corfforaethol
- Cynllunio ariannol
- Cynllunio'r gweithlu (pobl)
- Caffael
- Asedau
- Rheoli risg
- Rheoli Perfformiad

3.32 Dylai defnyddio hyn fel fframwaith helpu'r panel i ddeall a yw'r cyngor yn llywodraethu ei hun yn effeithiol er mwyn sicrhau ei fod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni'r nodau llesiant[10]:-

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru iachach
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

3.33 Asesiad corfforaethol, sefydliadol yw hwn, y bwriedir iddo ystyried i ba raddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad ac y gall gyflawni canlyniadau effeithiol. Ni ddylai'r panel geisio cynnal archwiliadau manwl nac adolygiadau manwl o wasanaethau, er y gall ddefnyddio canfyddiadau adolygiadau eraill gan gymheiriaid neu adolygiadau manwl o wasanaethau wrth lunio ei gasgliadau. Ni ddylai'r panel geisio archwilio / gwirio hunanasesiadau'r Cyngor ei hun, er y gall y dull o gynnal hunanasesiadau a fabwysiedir gan gyngor lywio barn panel am effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu.

3.34 Wrth gynnal asesiad o berfformiad gan banel mewn perthynas â chyngor, bydd yn rhaid i banel ymgynghori â'r canlynol ynghylch i ba raddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad:-

- pobl leol;

[9] Canllawiau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
[10] Gweler tudalen 8 am ddiffiniadau llawn o'r nodau.

- pobl eraill sy'n rhedeg busnes yn ardal y cyngor;
- staff y cyngor;
- pob undeb llafur a gydnabyddir (o fewn ystyr Deddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 (cym. 92) gan y cyngor.

3.35 Er mai hwn yw'r gofyniad sylfaenol o dan y ddeddfwriaeth, gall y panel ddewis ymgynghori â'r cyfryw bersonau eraill neu gynnwys y cyfryw bersonau eraill ag sy'n berthnasol, yn ei farn ef, i'w asesiad o'r graddau y mae'r cyngor y bodloni'r gofynion perfformiad.[11] Gall y panel, er enghraifft, geisio ymgynghori â phartneriaid eraill sy'n cydweithio â'r cyngor.

3.36 Mater i'r panel yw ystyried sut y byddai'n dymuno ymgynghori er mwyn cyfrannu'n effeithiol at y broses asesu gan banel, er enghraifft drwy ddefnyddio dulliau ymgysylltu presennol, arolygon ar y we, holiaduron ac ati. Mater i'r cyngor yw gwneud y trefniadau angenrheidiol er mwyn hwyluso’r ymgynghoriad.

3.37 Bydd y panel hefyd yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau mewnol ac allanol eraill, gan sicrhau bod sail dystiolaeth eang i lywio casgliadau ynghylch i ba raddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad ac argymhellion o ran sut i wella. Ceir awgrymiadau ynghylch ffynonellau a allai lywio'r asesiad yn y canllawiau i gynghorau ar gynnal hunanasesiadau.

3.38 Rhagwelir y gallai asesiad gael ei gynnal yn ystod cyfnod o bythefnos, gyda'r panel ar safle'r cyngor am tua 4-5 diwrnod er mwyn meithrin dealltwriaeth drylwyr o'r arferion / trefniadau gwaith. Mae'n debygol y bydd angen wythnos ychwanegol er mwyn i'r Cadeirydd allu cydgysylltu â'r cyngor cyn yr asesiad a drafftio'r adroddiad ar yr asesiad ar ôl iddo gael ei gynnal.

3.39 Dylai'r asesiad gynnwys y camau allweddol canlynol i'w cymryd gan y panel, er mai mater i'r panel fydd penderfynu a chytuno ar ei ddull gweithredu:-

- Cyfarfod cwmpasu
- Ymchwil ddesg
- Cyfarfodydd ag arweinwyr gwleidyddol, uwch-swyddogion ac ati; a grwpiau trafod, gan gynnwys cyfarfodydd â staff a phartneriaid, pobl leol, undebau a chynrychiolwyr busnesau lleol.
- Dadansoddi'r canfyddiadau a chytuno ar gasgliadau
- Cyfarfod i gyflwyno'r prif ganfyddiadau
- Paratoi adroddiad y panel i'r cyngor sy'n nodi ei gasgliadau.

**Adroddiad ar asesiad gan banel**

3.40 Ar ôl i asesiad gan banel gael ei gwblhau, mae'n rhaid i banel lunio adroddiad sy'n nodi'r canlynol:-

[11] Dylai paneli gasglu a defnyddio gwybodaeth er mwyn adlewyrchu profiadau pobl o grwpiau gwarchodedig gwahanol a'r rhai sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol a’r effaith arnynt

- ei gasgliadau ynghylch i ba raddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad;
- unrhyw gamau y mae'r panel yn argymell y dylai'r cyngor eu cymryd er mwyn cynyddu'r graddau y mae'n bodloni'r gofynion perfformiad.

3.41 Mater i'r panel yw penderfynu ar ffurf a chynnwys yr adroddiad hwn, er y byddai disgwyl iddo adlewyrchu egwyddorion allweddol bod yn agored a thryloywder a hygyrchedd i'r cyhoedd a phob cynghorydd. Dim ond barn ac argymhellion y panel yn gweithredu ar y cyd y dylai'r adroddiad eu cynnwys.

3.42 Dylai cadeirydd y panel drafod eu casgliadau a'u hargymhellion ag arweinydd a phrif weithredwr y cyngor, ac unrhyw unigolion eraill y bydd y cyngor yn dymuno eu cynnwys (er enghraifft, arweinwyr y wrthblaid a grwpiau gwleidyddol), er mwyn sicrhau bod yr holl wersi a ddysgwyd o'r asesiad yn cael eu cyfleu'n briodol.

3.43 Mae'n rhaid i'r panel anfon yr adroddiad cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl iddo gael ei baratoi i'r/at y canlynol:-

- Y cyngor
- Archwilydd Cyffredinol Cymru
- Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
- Gweinidogion Cymru[12]

**<u>Cyhoeddi'r adroddiad ar asesiad gan banel</u>**

3.44 Cyfrifoldeb y cyngor, nid y panel, yw cyhoeddi adroddiad y panel. Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cael yr adroddiad gan y cyngor, rhaid i'r cyngor:-

- drefnu bod yr adroddiad ar gael i bwyllgor llywodraethu ac archwilio'r cyngor;
- cyhoeddi'r adroddiad.

**<u>Ymateb i'r adroddiad ar yr asesiad gan banel</u>**

3.45 Mae'n rhaid i'r cyngor baratoi ymateb i'r adroddiad ar yr asesiad o berfformiad gan banel. Yn ei ymateb, mae'n ofynnol i'r cyngor nodi'r canlynol:-

- y graddau y mae'n derbyn y casgliadau yn yr adroddiad;
- y graddau y mae'r cyngor yn bwriadu dilyn unrhyw argymhellion a nodir yn yr adroddiad;
- unrhyw gamau y mae'n bwriadu eu cymryd er mwyn cynyddu'r graddau y mae'n bodloni'r gofynion perfformiad.

3.46 Dylid defnyddio'r casgliadau a'r argymhellion o'r asesiad er mwyn helpu'r cyngor i nodi camau y bydd yn eu cymryd i gynyddu'r graddau y mae'n bodloni'r gofynion perfformiad. Dylai'r adroddiad dynnu sylw at feysydd lle y

[12] Mae hyn yn cynnwys Arolygiaeth Gofal Cymru

gallai hunangymorth a chymorth a arweinir gan y sector fod yn werthfawr. Gall hefyd ailadrodd rhywbeth y mae'r cyngor eisoes yn ymwybodol ohono ac ategu'r achos dros newid, a / neu nodi lle y byddai'n fuddiol cynnwys eraill fel y bo'n briodol.

3.47 Wrth ymateb, dylai cyngor gymhwyso Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a llunio ei ymateb yn unol â'r pum ffordd o weithio. Dylai hyn fod yn gymwys i'r *hyn* y mae'r cyngor yn bwriadu ei wneud a *sut* y mae'n bwriadu ei wneud. Byddai cynnwys eraill yn y broses o lunio ei ymateb yn arwydd o gyngor blaengar.

3.48 Dylai cyngor hefyd ystyried asesiad o berfformiad gan banel wrth gynnal ei hunanasesiad nesaf, er mwyn gweld a yw'r hyn a ddysgwyd o'r asesiad gan banel wedi'i roi ar waith.

## Cynnwys y pwyllgor llywodraethu ac archwilio

3.49 Mae'n rhaid i'r cyngor drefnu bod drafft o'i ymateb i'r asesiad o berfformiad gan banel fod ar gael i'w bwyllgor llywodraethu ac archwilio. Wedyn, mae'n rhaid i'r pwyllgor hwnnw adolygu'r ymateb drafft a chaiff wneud argymhellion ar gyfer newidiadau i'r ymateb i'r asesiad gan banel.

3.50 Os na fydd y cyngor yn gwneud newid a argymhellwyd gan y pwyllgor llywodraethu ac archwilio, mae'n rhaid iddo nodi'r argymhelliad a'r rhesymau pam na wnaeth y newid yn yr ymateb terfynol.

## Cyhoeddi'r ymateb i'r adroddiad ar yr asesiad gan banel

3.51 Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cwblhau'r ymateb, mae'n rhaid i'r cyngor gyhoeddi'r ymateb a'i anfon at y canlynol:-

- Aelodau'r panel
- Archwilydd Cyffredinol Cymru
- Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
- Gweinidogion Cymru[13]

3.52 Mae'n rhaid i'r ymateb i adroddiad ar asesiad gan banel gael ei gyhoeddi o leiaf bedwar mis cyn y disgwylir i'r etholiad cyffredin nesaf ar gyfer cynghorwyr i'r cyngor gael ei gynnal.

[13] Mae hyn yn cynnwys Arolygiaeth Gofal Cymru

# Pennod 4 – Arolygiadau arbennig gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

## Cyflwyniad

4.1 Yn ychwanegol at y system hunanasesu, yr asesiad o berfformiad gan banel a'r adroddiad ar asesiad o'r fath, mae'r darpariaethau ynglŷn â pherfformiad a llywodraethiant yn y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn darparu ar gyfer arolygiad arbennig o brif gyngor i'w gynnal gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Mae'r bennod hon yn disgrifio pwerau ar gyfer arolygiadau arbennig o gynghorau, yn nodi sut y gwneir penderfyniad i gynnal arolygiad arbennig ac yn disgrifio dyletswyddau cynghorau a Gweinidogion Cymru i ymateb i adroddiadau ar arolygiadau arbennig.

## Y pŵer i gynnal arolygiad arbennig

4.2 Diben arolygiad arbennig yw helpu cyngor i fodloni'r gofynion perfformiad neu gynyddu'r graddau y mae'n eu bodloni.

4.3 Os bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru o'r farn nad yw cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad neu y mae'n bosibl nad yw'n eu bodloni, efallai y bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cynnal arolygiad arbennig. Nod yr arolygiad hwn yw asesu i ba raddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad, hynny yw i ba raddau y mae'n gwneud y canlynol:-

- arfer ei swyddogaethau yn effeithiol;
- defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol;
- sicrhau ei fod yn cael ei lywodraethu'n effeithiol er mwyn cyflawni'r uchod.

4.4 Gall Gweinidogion Cymru hefyd ofyn i'r Archwilydd Cyffredinol ystyried a yw cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad neu a yw'n bosibl nad yw'n eu bodloni; ac a ddylid cynnal arolygiad arbennig.

4.5 Mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn penderfynu a ddylid cynnal arolygiad arbennig o gyngor, oni bai mai Gweinidogion Cymru a wnaeth y cais fel y nodwyd uchod.

4.6 Mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol hysbysu'r cyngor yn ysgrifenedig o'r bwriad i gynnal arolygiad arbennig gan nodi'r canlynol:-

- y rhesymau pam yr ystyrir nad yw'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad neu ei bod yn bosibl nad yw'n eu bodloni;
- y materion y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu eu harolygu (er nad yw'r Archwilydd Cyffredinol wedi'i gyfyngu i arolygu'r materion a nodir yn yr hysbysiad yn unig).

4.7 Yn dilyn arolygiad arbennig, mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol lunio adroddiad sy'n nodi'r canlynol:-

- casgliadau ynghylch i ba raddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad;
- unrhyw gamau yr argymhellir y dylai'r cyngor neu Weinidogion Cymru eu cymryd er mwyn cynyddu'r graddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad a/neu wella effeithiolrwydd llywodraeth leol ar gyfer yr ardal.

4.8 Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi'r adroddiad a'i anfon i'r/at y canlynol:-

- y prif gyngor y mae'n ymwneud ag ef;
- Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru;
- Gweinidogion Cymru[14]

4.9 Mae'n rhaid i gyngor sy'n cael adroddiad ar arolygiad arbennig drefnu bod yr adroddiad ar gael i'w bwyllgor llywodraethu ac archwilio cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

4.10 Os bydd yr adroddiad yn ymdrin â'r ffordd y caiff budd-dal tai ei weinyddu gan y cyngor, efallai y bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn anfon yr adroddiad at yr Ysgrifennydd Gwladol.

**<u>Y ddyletswydd i ymateb i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol – prif gyngor</u>**

4.11 Mae gan gyngor sy'n cael adroddiad ar arolygiad arbennig gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ddyletswydd i ymateb i'r argymhellion.

4.12 Mae'n rhaid i'r ymateb nodi pa gamau, os o gwbl, y mae'r cyngor yn bwriadu eu cymryd mewn ymateb i'r argymhellion. Mae'n rhaid i'r cyngor drefnu bod drafft o'r ymateb ar gael i'w bwyllgor llywodraethu ac archwilio. Wedyn, mae'n rhaid i'r pwyllgor hwnnw adolygu'r ymateb drafft a chaiff wneud argymhellion ar gyfer newidiadau i'r drafft. Os na fydd y cyngor yn gwneud newid a argymhellwyd gan y pwyllgor llywodraethu ac archwilio, mae'n rhaid iddo nodi'r argymhelliad a'r rhesymau pam na wnaeth y newid yn yr ymateb.

4.13 Mae'n rhaid i'r ymateb gael ei anfon at yr Archwilydd Cyffredinol o fewn 30 diwrnod i'r dyddiad y cafodd y cyngor yr adroddiad, oni fydd yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi cyfnod hwy yn ysgrifenedig.

4.14 Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl anfon yr ymateb at yr Archwilydd Cyffredinol, mae'n rhaid i'r cyngor gyhoeddi'r ymateb a'i anfon at y canlynol:-

- Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru;
- Gweinidogion Cymru[15]

**<u>Y ddyletswydd i ymateb i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol – Gweinidogion Cymru</u>**

---

[14] Mae hyn yn cynnwys Arolygiaeth Gofal Cymru
[15] Mae hyn yn cynnwys Arolygiaeth Gofal Cymru

4.15 Os bydd adroddiad ar arolygiad arbennig a luniwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol yn cynnwys argymhellion ar gyfer camau i'w cymryd gan Weinidogion Cymru, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru baratoi ymateb i'r argymhellion.

4.16 Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi eu hymateb cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol a'i anfon at y/i'r canlynol:-

- Yr Archwilydd Cyffredinol;
- Y prif gyngor y mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn ymwneud ag ef;
- Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

## Pennod 5 – Cefnogaeth a chymorth i wella perfformiad ac ymyrraeth gan Weinidogion Cymru

### Cyflwyniad

5.1 Mae'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru roi cefnogaeth a chymorth i gynghorau a, lle y bo angen, ymyrryd os bydd cyngor yn wynebu problemau sylweddol.

5.2 Mae'r bennod hon yn disgrifio pwerau i Weinidogion Cymru roi cefnogaeth a chymorth statudol ac mae ar wahân i unrhyw gymorth anffurfiol a arweinir gan y sector sydd ar gael i gynghorau. Dylai hunanasesiadau ac asesiadau o berfformiad gan banel helpu cynghorau i nodi problemau yn gynnar, cael cymorth a arweinir gan y sector er mwyn mynd i'r afael â phroblemau ac osgoi cymorth statudol mwy ffurfiol.

5.3 Mae'r bennod hon hefyd yn disgrifio pwerau i Weinidogion Cymru ymyrryd yn statudol er mwyn cynyddu'r graddau y mae cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad. Dim ond pan fetho popeth arall yr ymyrrir yn statudol mewn cyngor. Bydd Gweinidogion Cymru yn ceisio gweithio gyda chyngor a phartneriaid eraill i gynnig cymorth i gynghorau er mwyn iddynt allu ymdrin â phroblemau mewn ffordd briodol ac amserol a sicrhau na fyddant yn troi'n broblemau difrifol nac yn argyfwng.

5.4 Diben y gefnogaeth a'r pwerau ymyrryd yw sicrhau llywodraethu da a llywodraeth leol effeithiol, nid newid swyddogaethau sylfaenol cyngor yn sylweddol.

### Cefnogaeth a chymorth gan Weinidogion Cymru

5.5 Gall Gweinidogion Cymru roi cymorth i gyngor i'w helpu i fynd i'r afael ag anawsterau y mae'n eu hwynebu wrth geisio bodloni'r gofynion perfformiad. Bydd y cymorth hwn yn gymorth pwrpasol y bwriedir iddo fynd i'r afael â'r materion neu'r amgylchiadau penodol sy'n achosi pryder. Fel hyn, byddai'r gefnogaeth a'r cymorth wedi'u teilwra er mwyn diwallu anghenion penodol y cyngor yn y ffordd fwyaf effeithiol.

5.6 Efallai y bydd cyngor am ofyn i Weinidogion Cymru ystyried rhoi cefnogaeth a chymorth iddo a byddai cais o'r fath yn arwydd o sefydliad agored a blaengar sy'n benderfynol o gyflawni ar ran ei gymunedau.

5.7 Gall Gweinidogion Cymru hefyd roi cefnogaeth a chymorth i gyngor os na fydd yn gofyn amdanynt, er mwyn cynyddu'r graddau y mae cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad.

5.8 Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r cyngor am y gefnogaeth a'r cymorth y maent yn bwriadu eu rhoi iddo.

5.9 Gall Gweinidogion Cymru gyfarwyddo cyngor i roi cefnogaeth a chymorth i gyngor arall os ystyrir bod hynny'n briodol er mwyn cynyddu'r graddau y mae'r cyngor sy'n cael y cymorth yn bodloni'r gofynion perfformiad.

5.10 Cyn rhoi cyfarwyddyd, byddid yn ymgynghori â'r ddau gyngor a byddai'r holl amgylchiadau yn cael eu hystyried.

**Pwerau Gweinidogion Cymru i ymyrryd mewn prif gyngor**

5.11 Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo cyngor i gymryd camau penodol a gallant hefyd gyfarwyddo bod un o swyddogaethau cyngor yn cael ei chyflawni gan Weinidogion Cymru neu eu henwebai.

5.12 Mae'r Bil yn cynnwys amodau ynglŷn â phryd a sut y gall Gweinidogion Cymru ymyrryd. Mae'r rhain yn nodi bod yn rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi gwneud y canlynol:-

- rhoi, neu geisio rhoi, cefnogaeth a chymorth i'r cyngor;
- ymgynghori â'r cyfryw bersonau ag sy'n briodol yn eu barn nhw;
- hysbysu'r cyngor perthnasol eu bod yn bwriadu rhoi'r cyfarwyddyd.

5.13 Fodd bynnag, os bydd Gweinidogion Cymru o'r farn bod angen rhoi cyfarwyddyd ar fyrder, ni fyddai'r amodau hyn yn gymwys.

5.14 Byddai Gweinidogion Cymru yn ymdrin â phob sefyllfa yn unigol wrth benderfynu a oes angen rhoi cymorth statudol neu ymyrryd yn statudol, gan ystyried amrywiaeth eang o dystiolaeth.

5.15 Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo cyngor i gydweithredu â Gweinidogion Cymru neu gyngor arall y mae'n ei gyfarwyddo i roi cefnogaeth a chymorth. Mae'n rhaid i'r cyngor sy'n cael cymorth ddarparu mynediad i'w safle, ei ddogfennau, gwybodaeth arall a chyfleusterau a chymorth at ddibenion rhoi cefnogaeth a chymorth (oni bai ei fod wedi'i wahardd rhag gwneud hynny gan unrhyw ddeddfiad neu gan reolaeth y gyfraith).

5.16 Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo cyngor i gymryd cam penodol a/neu gallant gyfarwyddo bod swyddogaeth yn cael ei chyflawni gan Weinidogion Cymru neu eu henwebai.